# Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Gorffennaf 2011 July

**YSGOL MELIN GRUFFYDD**
**Cylchlythyr 1 - Adleoli'r Ysgol**

Dyma'r cylchlythyr cyntaf sy'n crynhoi'r cynllun i adleoli Ysgol Melin Gruffydd i safle Ysgol Eglwys Newydd ym mis Medi 2012. Mae'n gyfnod cyffrous iawn Ysgol Melin Gruffydd ac fel llywodraethwyr rydym am sicrhau fod disgyblion a rhieni'r ysgol yn derbyn y newyddion diweddaraf am y cynlluniau.

Mewn cyfarfod yn ddiweddar gyda swyddogion y sir, fe dderbyniodd y bwrdd Llywodraethol gopi drafft cyntaf o'r cynllun ar gyfer y safle newydd. Mi fydd y cynllun yma yn cael ei ddatblygu wrth i ni drafod ymhellach yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Mi fyddwn yn eich hysbysu am y newidiadau a'r datblygiadau diweddaraf mewn cylchlythyron ac ar adran y llywodraethwyr ar wefan yr ysgol.

**Cam 1 - Cytuno ar gynllun yr adeilad newydd**
I'w gwblhau erbyn diwedd mis Medi er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio erbyn diwedd Rhagfyr.

Mae'r cynlluniau yn cael eu trafod a'u datblygu ar hyn o bryd gan y staff a'r llywodraethwyr a byddant yn cael eu hysbysu i'r rhieni yn gynnar ym mis Medi. Mi fydd y Cam yma hefyd yn cynnwys adolygiad o'r drafnidiaeth (mynediad, traffig aa) a bydd hyn hefyd ar gael ym mis Medi.

**Cam 2 - Cynllunio ar gyfer symud yr ysgol**
Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod ac i gytuno ar y drefn hwylusaf ac amserlen symud Ysgol Melin Gruffydd.

**Cam 3 - Cwblhau cynlluniau tu mewn yr adeilad a'r cyfleusterau allanol**
Bydd hyn yn cael ei drafod pan fydd y cynlluniau ar gyfer yr adeilad wedi eu cwblhau. Bydd hyn yn cynnwys buarth chwarae, ardal chwaraeon, ardal Cyfnod Sylfaen, gwresogi aa.

**Cam 4 - Symud (Haf 2012) a'r gwaith adeiladau 2012-2014**
Mae'r cyngor wedi cynnig amserlen ddrafft ar gyfer y saith cam ar gyfer adeiladu a datblygu'r adeilad a'r safle newydd:

| Cam 1 Haf 2012 | Cam 2 Hydref 2012 | Cam 3 Gwan/ Haf 2012 | Cam 4 Gwyliau haf 2013 | Cam 5 Hydref 2012 | Cam 6 Gwanwyn 2014 | Cam 7 Hydref 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthi-adau dros dro / caba-nau yn cael eu gosod | Estyniad newydd a gwella dosbarthi-adau bl 3 a 4 | Addasu a gwella'r neuadd, ffreutur, a'r gegin, | Adnewyd-du'r tai bach, sta-fell yr athrawon a'r swyddfa | Adnewyd-du yr Adran Iau | Adeiladu adeilad newydd ar gyfer y Meithrin a'r Babanod | Cwblhau'r buarth a'r ardal chwaraeon newydd (MUGA) |
| Bydd y sir yn trefnu cwmni symud ac yn rheoli'r gwaith adeiladau/adnewyddu | | | | | | |

Rydym yn siŵr y byddwch yn falch o weld bod cynlluniau wrthi yn cael eu trafod a'u datblygu - er ar lefel uwch ar hyn o bryd.

Cynhelir y cyfarfod cynllunio nesaf ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Bwrdd llywodraethol yr Ysgol.
E-bost: llywodraethwyr@ygmg.com

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Gorffennaf 2011 July

# Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

**YSGOL MELINGRUFFYDD SCHOOL**
**REORGANISATION NEWSLETTER - EDITION 1**

Welcome to the first YMG newsletter that outlines the plans for the move of our school to a new site in September 2012. This is a very exciting time for the school and we are very keen as Governors to ensure parents and children are kept up to date of the proposals and plans as they develop.

At a recent meeting with the Council, we were provided with an outline of the plans. These will become more detailed and may change over the next few months. We will provide regular updates on both the school website and via newsletters.

**Stage 1 – Finalising the plans for the new school building**
Due to be completed by end September to enable planning permission by the end of December.

The plans are currently under discussion with governors and teachers and will be issued to parents early September. This Stage will also include an independent transport review of the site (access, traffic etc) and this will also be available in September.

**Stage 2 – Planning the move/transfer of Melin Gruffydd**
Project meetings and planning for the move/transfer to the new buildings will commence in September with project management provided by the local authority working with teachers and governors to plan the move

**Stage 3 – Finalising the Internal design and Outdoor space**
This will be undertaken once the plan for the new school building is completed. This will include review of requirements for the outdoor spaces, playground, Foundation Phase provision and also heating, plumbing etc

**Stage 4 – The Move (Summer 2012) and Building work 2012-2014**
The council have provided a proposal outlining **7 proposed phases** of building work which are as follows:

| Phase1 Summer 2012 | Phase2 Autumn 2012 | Phase3 Spring/Summer 2013 | Phase 4 Summer Hols 2013 | Phase 5 Autumn Hols 2013 | Phase 6 Spring 2014 | Phase 7 Autumn 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Temporary classrooms (demountables) on new site<br>• Nursery children to remain in demountables throughout the development | • New build extension & adaptation of junior classrooms | • Adaptation & refurbishment of hall, dining and kitchen<br>• Existing dining hall and kitchen will remain open until new facilities complete | • Refurbishment of toilets, staffroom and admin areas | • Refurbishment of junior areas | • Estimated duration 7 months<br>• New build/ extension for nursery/infant<br>• To be completed by Sept 2014 | • Completion of external hard play and MUGA (Multi Use Games Area) |

Local Authority will provide moving resources during the development & project management for planning & building phases

I'm sure you all agree that it is great to see some detail of the plans, albeit at a very high level at this stage.

Next update planned for end July.

Governors YMG
Email address here for governing body: llywodraethwyr@ygmg.com